



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Recriwtio Llywodraeth Cymru

Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru Well



Gwnewch
Wahaniaeth
gyda ni

Ein sefydliad - Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru Well

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Rydym yn gweithio i wella bywydau ein dinasyddion a gwneud ein cenedl yn:

- llewyrchus a diogel
- iach ac egnïol
- uchelgeisiol ac yn dysgu
- unedig a chysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog
- Gweinidogion Cymru
- Y Cwnsler Cyffredinol
- Dirprwy Weinidogion

Maent yn cael eu cefnogi gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol, y Fonesig Shan Morgan.

Gydag oddeutu 5000 o gydweithwyr a swyddfeydd ledled Cymru, yn cynnwys Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, rydym yn gweithio'n nes at y bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Darllenwch fi:

Ffyniant i Bawb: mae'r cynllun gweithredu ar yr economi yn darparu mwy o fanylion ar weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi.

Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru: y strategaeth genedlaethol yw'r sylfaen i'n holl waith ar hyn o bryd.

Cyflawni ein blaenoriaethau

Mae'r ffaith bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu mwy o alluoedd newydd, gan gynnwys datblygu polisi, ar faterion a oedd yn arfer cael eu penderfynu ar lefel yr UE ynghyd â llunio deialog fwy dwys gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r fargen orau ar gyfer pobl Cymru. Mae Brexit yn creu llawer mwy o waith newydd hefyd mewn meysydd fel cywiro a diwygio deddfwriaethol ac yn gofyn am allu newydd mewn meysydd fel polisi

gwledig a masnach a fydd yn ein galluogi i weithredu'n llwyddiannus ar ôl Brexit. Mae'r pontio'n gymhleth ac yn symud yn gyflym.

Wrth inni baratoi at Brexit a rheoli'r broses bontio i gyfrifoldebau a threfniadau newydd â llywodraeth y DU, bydd angen i ni ehangu ein tîm i sicrhau bod y bobl orau yn gweithio ar ein rhaglen o flaenoriaethau'r llywodraeth.





Ein cyfleoedd - Gweithio gyda Ni

Rydym ni angen pobl o bob cefndir sydd â gwahanol brofiadau i'n helpu i sicrhau bod ein blaenoriaethau fel Llywodraeth yn llwyddo a'n bod yn sicrhau pontio rhwydd a llwyddiannus i Gymru wrth i'r DU adael yr UE.

Mae sawl ffordd y gallech chi wneud gwahaniaeth gyda ni. Rydym yn chwilio am bobl alluog, hyderus a gwydn sy'n teimlo'n angerddol dros Weithio gyda'n Gilydd dros Gymru Well. Byddwch yn rhywun:

- sy'n broffesiynol ac yn angerddol am yr hyn a wnawn
- sy'n fodel rôl ac yn annog cydweithio i sicrhau gwell canlyniadau
- sy'n hyblyg ac yn gallu addasu, yn barod i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid a ffyrdd newydd o weithio
- sy'n chwilfrydig ac uchelgeisiol am eich dysgu eich hun, gan rannu profiadau a sgiliau gyda'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw
- sy'n croesawu ac yn cynnig adborth adeiladol sy'n ein cynorthwyo i fod ar ein gorau yn amlach

Rydym yn chwilio'n arbennig am bobl gyda sgiliau ac arbenigeddau yn y meysydd

canlynol:

- Datblygu a chyflawni polisi
- Digidol
- Cyfreithiol
- Rheoli prosiect
- Dadansoddi data
- Economi
- Amgylcheddol
- Cyflawni gweithredol
- Ymchwil
- Cyfathrebu

Mae gennym gyfleoedd mewn rolau a lleoliadau amrywiol, o lefel mynediad i reoli. Mae pob rôl wedi'i llunio i roi profiad ymarferol i chi o weithio yng nghanol Llywodraeth yng Nghymru a chyfleoedd i feithrin gwybodaeth, cynyddu eich arbenigedd ac ehangu eich profiad.

Mae gweithio i Lywodraeth Cymru yn golygu y cewch y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisiau sy'n helpu i greu Cymru well ar gyfer eich ffrindiau a'ch teulu a chenedlaethau'r dyfodol. Felly, os ydych chi'n barod i wneud gwahaniaeth i Gymru, pam disgwyl? Ewch i llyw.cymru/gweithioini heddiw.

Ein Gwerthoedd

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r gwerthoedd a'r safonau craidd a ddisgwylir gan bob gwas sifil: uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd ac amhleidioldeb. Mae gennym Fframwaith Cymhwysedd Gwasanaeth Sifil y DU hefyd sy'n egluro'r ymddygiad, y sgiliau a'r cymhwysedd proffesiynol a ddisgwylir ar gyfer pob gradd yn y Gwasanaeth Sifil.

Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn rhoi pwyslais arbennig ar gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol a pholisi traddodiadol, gydag egwyddorion ein deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i sut byddwn yn mynd ati i wneud ein gwaith. Mae ein Gwerthoedd a'n Disgwyliadau, ynghyd â Fframwaith Cymhwysedd y Gwasanaeth Sifil, yn ategu ein hymagwedd at arweinyddiaeth, rheoli perfformiad, datblygiad a dyrchafiad yn Llywodraeth Cymru.

Telerau a Buddion

Patrwm Gwaith – Rydym yn croesawu ceisiadau gan rai sy'n chwilio am patrwm gwaith gwahanol fel rhan-amser neu drefniadau rhannu swydd.

Lleoliad a gweithio'n hyblyg – Mae cynlluniau gweithio'n hyblyg ar gael a fydd yn eich galluogi i amrywio eich diwrnod gwaith a'ch lleoliad swyddfa.

Gwyliau Blynyddol Hael – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig 31 diwrnod o wyliau blynyddol os ydych yn gweithio'n llawn amser (pro-rata ar gyfer rhan-amser).

Gwyliau Banc – Mae gweithwyr llawn amser yn derbyn 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint y flwyddyn os ydych chi'n gweithio'n llawn amser (pro-rata ar gyfer rhan-amser).

Cyflog - Rydym yn cynnig cyflogau cystadleuol ac yn gyflogwr Cyflog Byw gyda graddfeydd cyflog cynyddrannol. Mae gennym strwythur cyflog cyfartal hefyd, beth bynnag fo'ch oedran, statws priodasol, anabledd, hil, crefydd neu greddo, neu hunaniaeth rywiol.

Pensiwn – Mae rhagor o wybodaeth am gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yma: <https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/>

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ei holl weithwyr. Mae gennym rwydweithiau staff cryf a rhagweithiol, a rhaglenni doniau amrywiaeth i helpu pawb, beth bynnag fo'u cefndir, i wireddu eu potensial llawn.

Dysgu a Datblygu – Mae pawb yn Llywodraeth Cymru yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd, sy'n cynnwys mynediad i ddysgu a datblygu gyda darparwyr o safon byd.

Y Broses Ymgeisio

Ewch i llyw.cymru/gweithioini i weld ein cyfleoedd diweddaraf a manylion sut mae gwneud cais. Dylid ymgeisio drwy system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru, a chyflwyno'r cais erbyn y dyddiad cau a amlinellir.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

Gwahoddir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg ar gyfer pob swydd. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai Saesneg.





**Gwnewch
Wahaniaeth
gyda ni**